Ymgynghoriad ‘Beth sy'n bwysig i chi?’

Gosod targedau ar gyfer Cynllun y Cyngor 2015/16

Cyfnod ymgynghori: 23 Ionawr 2015 - 20 Chwefror 2015

Cyflwyniad

Ar 23 Ionawr 2015, dechreuodd yr ymgynghoriad 'Beth Sy’n Bwysig i Chi?'

Diben yr ymgynghoriad hwn oedd deall a yw'r gwasanaethau a gynigir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn bodloni anghenion y cyhoedd, er mwyn cynorthwyo'r cyngor i benderfynu pa wasanaethau i’w hyrwyddo dros y flwyddyn i ddod. Roedd yn gofyn i bobl pa mor bwysig oeddent yn meddwl oedd gwasanaethau amrywiol, a hefyd pa mor fodlon oeddent â'r ddarpariaeth gyfredol yn y maes gwasanaeth hwnnw. Yn ogystal â'r arolwg, roedd yna hefyd ddigwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ag aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr a wahoddwyd o’r Cynghorau Tref a Chymuned.

Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriad ar gyfer gweithdy Aelodau ar ddechrau Mawrth 2015, lle'r oedd aelodau yn ystyried targedau perfformiad ar gyfer gwahanol feysydd gwasanaeth yn y flwyddyn i ddod. Mae Penaethiaid Adrannau hefyd wedi defnyddio'r canlyniadau i'w helpu i ystyried pa wasanaethau fydd angen mwy o ffocws arnynt yn y flwyddyn i ddod.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 20 Chwefror 2015.

Ymateb

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ac mewn fformat papur.

Anfonwyd negeseuon e-bost yn eang i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad â rhwydwaith eang.

Roedd yna negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol CBSW (Twitter a Facebook) yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Anfonwyd gwahoddiadau i fynychu'r digwyddiad ymgynghori i gynghorau tref a chymuned a nifer o fforymau cynrychioliadol ledled y Fwrdeistref Sirol.

Cawsom 642 o ymatebion i'r arolwg.

Mynychodd 31 o bobl y digwyddiadau ymgynghori.

Cawsom bum llythyr/neges e-bost gyda sylwadau'n ymwneud â'r ymgynghoriad.

Cawsom 31 o sylwadau mewn ymateb i’n negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

Yn seiliedig ar amcangyfrif y boblogaeth yn Wrecsam sydd oddeutu 135,000; mae canlyniadau ystadegol yr arolwg hwn yn cynnwys lefel hyder dros 95%, a chyfwng hyder llai na 5%.[1]

---

[1] **Lefel hyder** yw pa mor ffyddiog y gallwch fod yn y data a geir. Mae lefelau hyder yn cael eu mynegi fel canran ac yn dangos pa mor aml y byddai canran o'r boblogaeth yn rhoi ateb fyddai o fewn y cyfwng hyder.

Cyfwng hyder yw’r lwfans gwall y byddech yn ei brofi os byddech yn gofyn y cwestiwn ymchwil eto. Byddech yn disgwyl i’r atebion rydych yn eu derbyn ddod o fewn % o'r ymateb rydych wedi'i gofnodi.

Proses Ymgynghori

Y prif ddull ar gyfer casglu barn pobl oedd arolwg, a oedd ar gael ar-lein ac mewn fformat papur. Ynghyd â chasglu data demograffig (gellir gweld dadansoddiad yn Atodiad 1), roedd yr arolwg wedi'i rannu'n bedair adran sy'n seiliedig ar y themâu strategol yng Nghynllun y Cyngor: Economi, Pobl, Lle a Threfniadaeth. Yna nodwyd nifer o amcanion o fewn pob un o'r adrannau hyn, a gofynnwyd i gyfranogwyr ddewis a) pa mor bwysig oeddent yn ystyried pob un o'r amcanion (pwysig iawn, pwysig, dim y naill na'r llall, dim yn bwysig, neu'n ddibwys iawn), a b) pa mor fodlon ydynt â'r ddarpariaeth gyfredol yn y maes hwn (yn fodlon iawn, bodlon, dim y naill na'r llall, anfodlon neu'n anfodlon iawn).

Ar gyfer pob un o'r pedair adran o fewn yr arolwg, rhoddwyd hefyd y cyfle i bobl roi unrhyw sylwadau eraill oedd ganddynt.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ar 24 Chwefror 2015, ac roedd y noson yn cynnwys dwy ran. Yn gyntaf, rhoddwyd adborth 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' i gyfranogwyr am yr ymgynghoriad cyllideb 'Penderfyniadau Anodd' a gynhaliwyd ym mis Medi a Hydref 2014; yn ail cafodd cyfranogwyr y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad 'Beth Sy'n Bwysig i Chi'. Roedd ail ran y noson yn cynnwys pedair gorsaf wedi eu gosod o amgylch yr ystafell (h.y. economi, pobl, lle a threfniadaeth), gyda'r cyfranogwyr yn gallu symud o gwmpas o un orsaf i'r nesaf. Gofynnwyd iddynt gyfrannu eu barn am y ddarpariaeth bresennol o fewn y pedair thema, a hefyd i wneud unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Ym mhob gorsaf roedd cyfle i'r cyfranogwyr siarad yn uniongyrchol â'r Aelodau Arweiniol, Penaethiaid Adrannau ac Uwch Swyddogion eraill.

Dosbarthu a Hyrwyddo'r Ymgynghoriad

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ac mewn fformat papur yn Llyfrgell Wrecsam, derbynfa Neuadd y Dref a Galw Wrecsam.

Anfonwyd negeseuon e-bost yn eang i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys holl aelodau'r panel dinasyddion, holl ysgolion uwchradd, y tîm 'gwaith ieuenctid mewn addysg' a holl sefydliadau partner y BGLl. Gwnaed aelodau staff CBSW yn ymwybodol o'r ymgynghoriad drwy ddiweddariadau rheolaidd mewn bwletinau mewnol.

Roedd yna negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol CBSW (Twitter a Facebook) yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys defnyddio graffeg a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer yr ymgynghoriad. Rhoddwyd gwybodaeth ar wefan 'Wrecsam Ifanc', a chyfrif Twitter Wrecsam Ifanc hefyd.

Anfonwyd gwahoddiadau i fynychu'r digwyddiad ymgynghori i: cynghorau tref a chymuned, aelodau'r panel dinasyddion, Senedd yr Ifanc, Fforwm Dros 50 Wrecsam, Fforwm y tenantiaid a'r Grŵp Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

Ymateb

Cawsom 642 o ymatebion i'r arolwg.

Mynychodd 31 o bobl y digwyddiadau ymgynghori.

Cawsom bum llythyr/neges e-bost gyda sylwadau'n ymwneud â'r ymgynghoriad.

Cawsom 31 o sylwadau mewn ymateb i'n negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

O fewn yr arolwg, gofynnwyd i bobl ateb nifer o gwestiynau amdanynt eu hunain. 90% o bobl a ymatebodd yn byw yn Wrecsam, 57% yn gweithio yn Wrecsam a 5% o ymatebwyr yn berchennog busnes yn Wrecsam (noder – gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn).

Cyflwynwyd saith o'r ymatebion a dderbyniwyd ar ran grwpiau (gan gynnwys un ysgol ac un grŵp ieuenctid).

Roedd 94% o'r ymatebion gan drigolion lleol, 30% gan weithwyr CBSW ac 1% gan Aelodau etholedig CBSW, 1.5% gan aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned a 4% gan ddarparwyr gwasanaeth (noder - gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn).

Derbyniwyd ymatebion gan holl wardiau o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Roedd grwpiau oedran y rhan fwyaf o ymatebion yn 35-44 oed a 45-54 oed (y ddau yn 26%). Roedd 18% o'r ymatebion gan grŵp oedran 55-64, ac 17% gan grŵp oedran 25-34. Roedd categorïau oedran gyda'r gyfradd ymateb isaf 65-74 (9%), 16-24 (4%), 75+ (1%) ac o dan 16 oed (0.2%).

Roedd 39% o'r ymatebion yn ddynion, 61% yn fenywod, a 0.4% 'arall'.

Roedd 97% o'r ymatebwyr wedi dewis 'gwyn' fel eu grŵp ethnig.

Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r data 'Amdanoch Chi' yn Atodiad 1.

Crynodeb o'r Canlyniadau

Economi			
Mwy o swyddi			
Pwysig iawn neu'n bwysig	96%	Bodlon iawn neu'n fodlon	19%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	2%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	41%
Helpu busnesau			
Pwysig iawn neu'n bwysig	88%	Bodlon iawn neu'n fodlon	18%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	2%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	32%
Denu twristiaid ac ymwelwyr			
Pwysig iawn neu'n bwysig	77%	Bodlon iawn neu'n fodlon	28%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	8%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	30%
Helpu perchnogion siopau			
Pwysig iawn neu'n bwysig	92%	Bodlon iawn neu'n fodlon	10%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	2%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	60%
Denu Busnesau			
Pwysig iawn neu'n bwysig	91%	Bodlon iawn neu'n fodlon	13%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	1%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	41%

Pobl			
Mwy o bobl yn gwneud yn dda yn yr ysgol			
Pwysig iawn neu'n bwysig	96%	Bodlon iawn neu'n fodlon	41%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	3%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	30%
Helpu i ddiogelu pobl ifanc			
Pwysig iawn neu'n bwysig	89%	Bodlon iawn neu'n fodlon	37%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	4%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	18%
Llai o droseddu			
Pwysig iawn neu'n bwysig	93%	Bodlon iawn neu'n fodlon	29%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	3%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	37%
Helpu pobl i fyw yn iach			
Pwysig iawn neu'n bwysig	73%	Bodlon iawn neu'n fodlon	30%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	11%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	23%
Pobl hŷn iach ac annibynnol			
Pwysig iawn neu'n bwysig	92%	Bodlon iawn neu'n fodlon	31%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	3%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	28%
Cymraeg yn cael ei siarad yn amlach			
Pwysig iawn neu'n bwysig	36%	Bodlon iawn neu'n fodlon	27%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	34%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	19%

Y Lle			
Rhagor o gartrefi fforddiadwy			
Pwysig iawn neu'n bwysig	72%	Bodlon iawn neu'n fodlon	34%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	12%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	25%
Sicrhau bod adeiladau newydd yn ddeniadol ac o ansawdd da			
Pwysig iawn neu'n bwysig	81%	Bodlon iawn neu'n fodlon	37%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	6%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	22%
Rhagor o bobl yn hapus yn eu cymdogaethau			
Pwysig iawn neu'n bwysig	88%	Bodlon iawn neu'n fodlon	29%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	3%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	31%
Sir 'werdd' gydag ôl-troed carbon bychan			
Pwysig iawn neu'n bwysig	70%	Bodlon iawn neu'n fodlon	37%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	13%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	19%

Llai o bobl yn ddigartref			
Pwysig iawn neu'n bwysig	83%	Bodlon iawn neu'n fodlon	19%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	4%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	35%
Rhagor o sbwriel yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio			
Pwysig iawn neu'n bwysig	77%	Bodlon iawn neu'n fodlon	57%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	6%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	14%
Cynnal ein priffyrdd			
Pwysig iawn neu'n bwysig	94%	Bodlon iawn neu'n fodlon	21%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	2%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	57%
Cefnogi cludiant cyhoeddus			
Pwysig iawn neu'n bwysig	80%	Bodlon iawn neu'n fodlon	30%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	4%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	32%
Tai Cyngor cynnes, diogel a modern			
Pwysig iawn neu'n bwysig	62%	Bodlon iawn neu'n fodlon	28%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	13%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	16%

Sefydliad			
Mwy o gwsmeriaid y Cyngor yn hapus ac yn fodlon			
Pwysig iawn neu'n bwysig	76%	Bodlon iawn neu'n fodlon	31%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	7%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	33%
Gwasanaethau'r Cyngor sy'n cymharu'n dda â gweddill Cymru			
Pwysig iawn neu'n bwysig	80%	Bodlon iawn neu'n fodlon	30%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	6%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	28%
Pobl leol yn teimlo bod y Cyngor yn gwrando arnynt			
Pwysig iawn neu'n bwysig	86%	Bodlon iawn neu'n fodlon	24%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	4%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	49%
Mwy o staff yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys			
Pwysig iawn neu'n bwysig	84%	Bodlon iawn neu'n fodlon	26%
Dibwys iawn neu'n ddibwys	5%	Anfodlon iawn neu'n anfodlon	37%

Blaenoriaethau â phwysigrwydd uchaf cyffredinol

- **Economi – mwy o swyddi a lleihau diweithdra -** 96% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai'n 'Bwysig iawn' neu'n 'Bwysig'
- **Pobl – mwy o bobl yn gwneud yn dda yn yr ysgol -** 96% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai 'Yn bwysig iawn' neu 'Yn bwysig'
- **Lle - Cynnal ein priffyrdd -** 94% o bobl yn teimlo fod hyn naill ai'n 'Bwysig iawn' neu'n 'Bwysig'
- **Pobl – Llai o Droseddau -** 93% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai 'Yn bwysig iawn' neu 'Yn bwysig'
- **Economi – Helpu Perchnogion Siopau -** 92% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai 'Yn bwysig iawn' neu 'Yn bwysig'
- **Pobl – Pobl hŷn iach ac annibynnol -** 92% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai 'Yn bwysig iawn' neu 'Yn bwysig'

Blaenoriaethau â phwysigrwydd isaf cyffredinol

- **Pobl – Y Gymraeg yn cael ei siarad yn fwy aml –** 34% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai yn 'Ddibwys iawn' neu'n 'Ddibwys'

- **Lle – Tai cyngor cynnes, diogel, modern -** 13% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai'n 'Ddibwys iawn' neu'n 'Ddibwys'
- **Lle -Sir werdd gydag ôl troed carbon bach -** 13% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai'n 'Ddibwys iawn' neu'n 'Ddibwys'
- **Lle – Mwy o dai fforddiadwy -** 12% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai'n 'Ddibwys iawn' neu'n 'Ddibwys'
- **Pobl – Helpu pobl i gael fforddo fyw iach –** 11% o bobl yn teimlo bod hyn naill ai yn 'Ddibwys iawn' neu'n 'Ddibwys'

Blaenoriaethau â boddhad uchaf cyffredinol

- **Lle – mwy o sbwriel wedi'i ailgylchu neu ei gompostio**- dywedodd 57% o bobl eu bod naill ai 'Yn fodlon iawn' neu'n 'Fodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Pobl – Mwy o bobl yn gwneud yn dda yn yr ysgol -** dywedodd 38% o bobl eu bod naill ai'n 'Fodlon iawn' neu'n 'Fodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Pobl – Helpu i ddiogelu pobl ifanc -** dywedodd 37% o bobl eu bod naill ai'n 'Fodlon iawn' neu'n 'Fodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Lle –sicrhau bod adeiladau newydd yn ddeniadol ac o ansawdd da** - 37% o bobl wedi dweud eu bod naill ai 'Yn fodlon iawn' neu 'Yn fodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Lle - Sir werdd gydag ôl-troed carbon bach -** dywedodd 37% o bobl eu bod naill ai'n 'Fodlon iawn' neu'n 'Fodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn

Blaenoriaethau â boddhad isaf cyffredinol

- **Economi – Helpu Perchnogion Siopau -** dywedodd 60% o bobl eu bod naill ai'n 'Fodlon iawn' neu'n 'Fodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Lle – Cynnal ein priffyrdd -** dywedodd 57% o bobl eu bod naill ai'n 'Anfodlon iawn' neu'n 'Anfodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Trefniadaeth – Pobl leol yn teimlo bod y Cyngor yn gwrando arnynt -** dywedodd 49% o bobl eu bod naill ai yn 'Anfodlon iawn' neu'n 'Anfodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Economi – Mwy o swyddi a lleihau diweithdra -** dywedodd 41% o bobl eu bod naill ai'n 'Anfodlon iawn' neu'n 'Anfodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn
- **Economi – Denu Busnesau -** dywedodd 41% o bobl eu bod naill ai'n 'Anfodlon iawn' neu'n 'Anfodlon' gyda gwasanaeth yn y maes hwn

Canlyniadau ansoddol

Ynghyd â'r data ystadegol, gofynnwyd i gyfranogwyr gyflwyno unrhyw sylwadau eraill oedd ganddynt ar bedair thema'r ymgynghoriad (h.y. economi, pobl, lle a threfniadaeth). Derbyniwyd sylwadau hefyd, pum llythyr/negeseuon e-bost ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r nodiadau ysgrifenedig o'r sgyrsiau yn y digwyddiad ymgynghori hefyd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ansoddol hwn.

Economi

- Mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â chanol y dref gan gynnwys: pryderon ynghylch lleoliad Dôl yr Eryrod a'i agosrwydd at weddill y dref; pryderon am nifer y siopau gwag, ac ansawdd y siopau sydd gennym (e.e. siopau punt a siopau disgownt); a theimlad y byddai'n well gan bobl ddefnyddio lleoliadau siopa eraill gerllaw yn hytrach yn dod i Wrecsam (e.e. Caer, Croesoswallt)
- Mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â busnesau; a'r teimlad bod angen gwneud mwy i ddenu busnesau newydd i'r ardal (yn arbennig siopau newydd annibynnol) e.e. cynlluniau gostyngiadau rhent
- Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â meysydd parcio yn Wrecsam, gyda phobl o'r farn bod parcio yn Wrecsam yn rhy ddrud, sy'n atal pobl rhag ymweld â chanol y dref
- Mae ychydig o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud ag ymddangosiad y dref, gyda phobl yn datgan eu bod yn teimlo bod y dref yn fudr a blêr

Pobl

- Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud ag iechyd, a'r safbwyntiau a fynegwyd yn dweud y dylai'r cyngor ddiogelu gwasanaethau sy'n caniatáu ac yn annog pobl i fod yn fwy iach (e.e. canolfannau hamdden) gan y bydd poblogaeth o bobl afiach yn costio arian yn y tymor hir. Roedd peth teimlad hefyd nad y Cyngor ddylai fod yn gyfrifol am hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Roedd rhai pobl yn teimlo mai cyfrifoldeb y GIG, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r unigolion eu hunain oedd gwneud dewisiadau gwell
- Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud ag addysg gan gynnwys: pryderon ynghylch nifer o ysgolion yn Wrecsam sydd wedi derbyn sylwadau/adroddiadau pryder gan Estyn (yn benodol pryderon ynghylch ysgolion uwchradd Wrecsam); pryderon ynghylch nifer y rhieni sy'n dewis addysgu eu plant (oedran ysgol uwchradd yn bennaf) y tu allan i'r Sir; a rhai sylwadau'n awgrymu bod angen mwy o addysg alwedigaethol ar gael i ddisgyblion, a fydd yn arwain at gyflogaeth
- Mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, gan gynnwys: sylwadau a fynegwyd a nododd bod pobl yn teimlo mewn cyfnod ariannol anodd, na ddylai hyrwyddo'r iaith Gymraeg fod yn flaenoriaeth; a'r teimlad fod cynhyrchu popeth yn ddwyieithog yn wastraff o arian ac y dylai'r cyngor ystyried ffordd o ofyn i bobl 'nodi' eu dewis iaith
- Roedd ychydig o'r sylwadau a gafwyd ynghylch pwysigrwydd ymyrraeth gynnar / atal fel nad ydym yn creu mwy o angen am wasanaethau yn y dyfodol (e.e. lleihad mewn gwasanaethau hamdden sy'n cynyddu nifer y bobl â materion cysylltiedig â iechyd yn y dyfodol)

Y Lle

- Mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â chludiant gan gynnwys: rhai sylwadau'n datgan bod pobl yn teimlo bod amserlenni bysiau a'r gweithredwyr gwahanol yn ddryslyd, a bod yna bron loteri 'Cod post' ar ansawdd/amlder gwasanaeth bws a gewch; sylwadau'n amlygu pwysigrwydd gwasanaethau bws ar gyfer pobl oedrannus yn arbennig; a rhai awgrymiadau bod angen i'r cyngor wneud mwy i hyrwyddo ac annog y defnydd o

gludiant cyhoeddus (e.e. nid oes amserlenni mewn arosfannau bysiau ar hyn o bryd – pe bai pobl yn deall pryd y gallent gael bws, byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio bysiau).
- Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â chynllunio, gan gynnwys nifer a lleoliad 'datblygiadau tai newydd'
- Ychydig o'r sylwadau yn ymwneud ag addysg, yn enwedig costau cludiant i fynd i'r ysgol a'r coleg
- Ychydig o'r sylwadau yn ymwneud â thwristiaeth, yn enwedig yr angen i ystyried barn ymwelwyr wrth wneud penderfyniadau am y dref

Trefniadaeth

- Rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â chyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid gan gynnwys: yr angen i Gyngor Wrecsam hysbysebu a hyrwyddo pethau cadarnhaol am y Cyngor yn well (e.e. storïau newyddion da); anfodlonrwydd ynghylch yr ymateb a gafwyd i gwynion a wneir i'r Cyngor; a rhai teimladau cymysg am yr agwedd a'r gwasanaeth a ddarperir gan staff rheng flaen y Cyngor
- Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â gwrando ar y cyhoedd gan gynnwys: rhai sylwadau cadarnhaol am faint o ymgynghori a wneir gan y Cyngor; rhai pryderon ni waeth pa mor aml mae'r cyhoedd yn rhoi eu barn, nad yw'r Cyngor yn gwrando arnynt; a rhai awgrymiadau y gallai gwrando ar farn y cyhoedd a gweithredu arno fod yn ffordd gynhyrchiol i'r Cyngor wario arian yn effeithiol
- Ychydig o sylwadau a gafwyd yn ymwneud â rheoli Cyngor Wrecsam a'r dymuniad i weld nifer y rheolwyr a'u cyflogau'n cael eu gostwng fel y gellid gwneud gwell defnydd o adnoddau mewn mannau eraill
- Ychydig o sylwadau a gafwyd yn ymwneud â chymariaethau ag awdurdodau lleol ac ardaloedd eraill. Roedd barn gymysg ynghylch a oedd yn ddefnyddiol cymharu Wrecsam gydag ardaloedd eraill ai peidio: teimlai rhai pobl nid oeddent yn poeni am sut oedd y sefyllfa yma'n cymharu â mannau eraill gan nad yw'n effeithio ar eu bywydau, ac roedd eraill yn teimlo ei fod yn ddiddorol gwybod sut mae Wrecsam yn perfformio o'i gymharu â mannau eraill

Gellir cael crynodeb manwl o'r holl ddata ansoddol yn Atodiad 2. Mae disgrifiad llawn o'r data ansoddol ar gael ar gais.

Digwyddiad Ymgynghori

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori gyda'r nos ar 24 Chwefror 2015. Roedd diben y digwyddiad yn ddeublyg: yn gyntaf i roi adborth i'r mynychwyr ar ganlyniadau'r ymgynghoriad 'Penderfyniadau anodd' (a gynhaliwyd ym mis Medi a Hydref 2014) a'r penderfyniadau dilynol a wnaed am y gyllideb ar gyfer 2015/16; ac yn ail i gasglu barn ar gyfer yr ymgynghoriad 'Beth Sy'n Bwysig i Chi'. Bwriad ail ran y noson oedd ategu'r data a gasglwyd yn yr arolwg 'Beth Sy'n Bwysig i Chi'; i gasglu barn fwy manwl ac awgrymiadau ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor; ac i gasglu barn gan grwpiau cymunedol penodol a fyddai'n llai tebygol o gymryd rhan mewn arolwg.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniad gan benaethiaid adrannau gyda phob un yn rhoi enghraifft o gynnig cyllideb gan eu hadran, yr ymateb yn yr ymgynghoriad a'r penderfyniad dilynol a wnaed ynglŷn â'r cynnig. Oherwydd cyfyngiadau amser rhoddodd pob Pennaeth Adran adborth ar un cynnig cyllideb yn unig, fodd bynnag, roedd cyfranogwyr hefyd wedi derbyn copi caled o'r adroddiad 'Penderfyniadau Anodd – Dywedoch Chi Gwnaethom Ni'.

Roedd ail ran y noson yn cynnwys pedair gorsaf wedi eu gosod o amgylch yr ystafell (h.y. economi, pobl, lle a threfniadaeth), gyda'r cyfranogwyr yn gallu symud o gwmpas o un orsaf i'r nesaf. Gofynnwyd iddynt gyfrannu eu barn am y ddarpariaeth bresennol o fewn y pedair thema, a hefyd i wneud unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Ym mhob gorsaf roedd cyfle i'r cyfranogwyr siarad yn uniongyrchol â'r Aelodau Arweiniol, Penaethiaid Adrannau ac Uwch Swyddogion eraill.

Mynychwyd y digwyddiad gan gynrychiolwyr o gynghorau tref a chymuned, a wahoddwyd i sicrhau cynrychiolaeth o wahanol leoliadau daearyddol yn y fwrdeistref sirol. Mynychwyd y digwyddiad hefyd gan aelodau o'r cyhoedd sy'n rhan o amrywiol 'fforymau' o fewn y fwrdeistref sirol. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o:

- 'Llais y Bobl' (Panel Dinasyddion y Cyngor)
- Senedd Yr Ifanc (Senedd Ieuenctid)
- y Fforwm Amrywiaeth
- Fforwm Pobl dros 50 oed Wrecsam
- y Fforwm Tenantiaid

Mynychodd cynrychiolwyr o bob un o'r fforymau hyn ac eithrio Senedd yr Ifanc (a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill). Pwrpas gwahodd yr holl gynrychiolwyr hyn oedd sicrhau ein bod yn casglu barn gan bobl sy'n adlewyrchu'r boblogaeth leol.

Mae rhaglen ar gyfer y digwyddiad yn Atodiad 3.

Mae canfyddiadau'r digwyddiad wedi eu dadansoddi gyda'r data ansoddol arall a gasglwyd ar gyfer yr ymgynghoriad.

Mae adborth gan y cyfranogwyr yn dangos bod pobl yn falch o gael y cyfle i leisio eu barn. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn mynegi'r farn y byddent wedi gwerthfawrogi cael mwy o amser yn ystod y digwyddiad i leisio'u barn a chael trafodaethau mwy manwl ynghylch meysydd blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn awyddus i fod yn rhan o ymgynghoriadau pellach CBSW yn y dyfodol.

Atodiad 1 – Data Amdanoch Chi

Rydw i'n byw yn Wrecsam	90%
Rydw i'n gweithio yn Wrecsam	56.8%
Rydw i'n berchen ar fusnes yn Wrecsam	5.4%
Arall	2.1%

** Noder - gallai pobl ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn **

Dywedwch wrthym pa wasanaethau y mae Cyngor Wrecsam yn eu darparu yr ydych wedi'u defnyddio yn y 12 mis diwethaf:	
Ysgolion a/neu golegau	33%
Llyfrgelloedd	41.6%
Canolfannau Cymunedol	25.2%
Canolfannau Hamdden	39.3%
Gwasanaethau Tai	10.4%
Y Ganolfan Gyswllt (Stryt yr Arglwydd)	23.7%
Gwefan	77.2%
Adeiladu a Chynllunio	15.1%
Cymorth a Chyngor Busnes	3.8%
Sbwriel ac Ailgylchu	74.7%
Meysydd Parcio	75%
Gofal Cymdeithasol (oedolion)	8.6%
Gofal Cymdeithasol (plant a phobl ifanc)	4.5%
Digwyddiadau cyhoeddus	27.7%
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	11.6%
Ffyrdd a Phriffyrdd	54.3%
Trwyddedu	5.1%
Parciau a Pharciau Gwledig	53.2%
Iechyd y Cyhoedd	16.6%
Toiledau Cyhoeddus	31.4%
Swyddfa Gofrestru	5.6%
Shopmobility	1%
Gwasanaethau Ieuenctid	5.4%
Addysg Oedolion	7.3%
Arall	2.2%

** Noder - gallai pobl ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn **

Os ydych yn ymateb ar ran grŵp, sefydliad neu glwb nodwch yr enw a'r cod post yn y blwch isod.	7 ymateb grŵp gan gynnwys 1 ysgol ac 1 grŵp ieuenctid

Ydych chi'n ...	
Byw yn lleol	93.7%
Gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	29.5%
Aelod Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	1%
Aelod Etholedig o Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam	1.5%
Ddarparwr Gwasanaeth	4.2%
Arall	1.3%

** Noder - gallai pobl ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn **

Beth yw eich oed?	
Dan 16	0.2%
16 – 24	3.7%

25 – 34	17.1%
35 – 44	25.5%
45 – 54	25.5%
55 – 64	17.6%
65 – 74	9.2%
75+	1.1%

Dywedwch wrthym ym mha ward rydych yn byw:			
Acton	4.9%	Borras	6%
Bronington	1.1%	Brymbo	4.7%
Bryn Cefn	1.1%	Brynyffynnon	1.1%
Cartrefle	1.1%	Cefn	2.2%
Dyffryn Ceiriog	0.9%	Gogledd Y Waun	1.6%
De'r Waun	0.2%	Coedpoeth	5.1%
Erddig	2%	Esclusham	3.1%
Garden Village	3.6%	Gresffordd Dwyrain/Gorllewin	2.2%
Grosvenor	0.7%	Gwenfro	0.4%
Gwersyllt Dwyrain/De	4.4%	Gwersyllt Gogledd	2.2%
Gwersyllt Gorllewin	2.7%	Hermitage	1.6%
Holt	0.2%	Johnstown	2.4%
Little Acton	1.6%	Llangollen Gwledig	1.8%
Llai	3.6%	Maesydre	1.1%
Marchwiel	2.7%	Merffordd a Hosely	2.2%
Y Mwynglawdd	1.6%	New Broughton	2.2%
Offa	7.6%	Owrtyn	1.6%
Pant	0.2%	Penycae	2.2%
Penycae a De Rhiwabon	1.3%	Plas Madog	0.2%
Ponciau	1.8%	Queensway	0.7%
Rhosnesni	2.4%	Yr Orsedd	1.3%
Rhiwabon	2%	Smithfield	1.1%
Stansty	1.1%	Whitegate	0.9%
Wynnstay	1.1%	Nid wyf yn byw yn Wrecsam	2.2%

Beth yw eich rhyw?	
Gwryw	39.1%
Benyw	60.5%
Arall	0.4%

A yw eich gweithgarwch beunyddiol wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?	
Ydy, wedi ei gyfyngu'n arw	3.3%
Ydy, wedi ei gyfyngu ychydig	9.9%
Na	83%
Mae'n well gen i beidio â dweud	3.7%

Beth yw eich crefydd?	
Cristion (pob enwad)	59.4%
Bwdhaeth	1.6%

Hindw	0
Iddewiaeth	0.5%
Mwslim	0
Sikh	0
Unrhyw Grefydd Arall	1.8%
Dim crefydd	36.8%

Beth yw eich grŵp ethnig?	
Gwyn	**97.4%**
Cymro/Cymraes/Sais/Saesnes/Albanwr/Albanes/Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon/Prydeiniwr	98.4%
Gwyddelig	0.5%
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0
Unrhyw gefndir gwyn arall	1.6%
Grwpiau ethnig cymysg / lluosog	**0.4%**
Gwyn a Du Caribïaidd	0
Gwyn a Du Affricanaidd	100%
Gwyn ac Asiaidd	0
Unrhyw gefndir Cymysg/Aml-ethnig arall	0
Asiaidd/Prydeinig Asiaidd	**0**
Indiaidd	0
Pacistanaidd	0
Bangladeshaidd	0
Tsieineaidd	0
Unrhyw gefndir Asiaidd arall	0
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig	**0.4%**
Affricanaidd	50%
Caribïaidd	50%
Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall	0
Grŵp Ethnig Arall	**1.8%**
Arabaidd	0
Arall	100%

Beth yw eich statws priodasol?	
Wedi priodi	60.9%
Mewn partneriaeth sifil	3.4%
Sengl	28.3%
Arall	7.5%

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog, neu wedi cymryd absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?	
Do	3.9%
Na	92.4%
Mae'n well gen i beidio â dweud	3.7%

Ydych chi'n gofalu am rywrai eraill, neu'n rhoi help neu gefnogaeth i eraill oherwydd afiechyd / anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir; neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?	
Ydw	26.3%

Na	71.6%
Mae’n well gen i beidio â dweud	2.1%

Beth yw eich dewis iaith?	
Saesneg	92.8%
Cymraeg	5.2%
Arall	0.2%
Mae’n well gen i beidio â dweud	1.8%

Pa un o'r gweithgareddau hyn sy'n disgrifio orau'r hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd?	
Gweithiwr mewn swydd llawn amser	55.8%
Gweithiwr mewn swydd rhan amser	13.5%
Di-waith	0.9%
Addysg lawn-amser (mewn ysgol, coleg neu brifysgol)	2.7%
Salwch/anabledd parhaol	1.8%
Wedi Ymddeol	13.9%
Hunangyflogedig (llawn amser neu’n rhan-amser)	4.9%
Gofalu am y cartref	3.4%
Gwneud rhywbeth arall	1.6%
Mae’n well gen i beidio â dweud	1.6%

Os ydych chi neu eich teulu yn derbyn unrhyw gymorth ariannol, nodwch pa fath.	
Budd-dal Tai	10.3%
Lwfans Ceisio Gwaith	1.9%
Cymhorthdal Incwm	8.4%
Budd-dal Treth y Cyngor	20.6%
Credyd Treth Gwaith	24.3%
Lwfans Anabledd	26.2%
Lwfans Gofalwyr	15%
Credydau Pensiwn	5.6%
Arall	13.1%
Mae’n well gen i beidio â dweud	26.2%

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich statws tai / llety presennol?	
Perchennog - dim morgais	30.6%
Perchennog - morgais neu fenthyciad	45.9%
Rhentu gan y Cyngor	7.3%
Rhentu gan gymdeithas neu ymddiriedolaeth dai	1.8%
Rhentu gan landlord preifat	6.4%
Yn byw gyda rhiant/gwarcheidwad	4.6%
Arall	0
Mae’n well gen i beidio â dweud	3.7%

Atodiad 2- beth sy'n bwysig i chi? - Data ansoddol

Roedd nifer o ffyrdd y cafodd data ansoddol ei gynhyrchu ar gyfer ymgynghoriad 'Beth sy'n Bwysig i Chi?':

1. **Arolwg** – rhoddwyd yr opsiwn i ymatebwyr wneud sylwadau ar bob un o themâu blaenoriaeth Cynllun y Cyngor (h.y. Economi, Pobl, Lleoedd, Trefniadaeth).
2. **Digwyddiadau –** gofynnwyd i'r cyfranogwyr gyfrannu at drafodaethau am bob un o'r pedwar maes blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor, ac i nodi beth maent yn feddwl am ddarpariaeth bresennol, ac unrhyw awgrymiadau a oedd ganddynt ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.
3. **Negeseuon e-bost a llythyrau -** cafwyd pump o lythyrau/negeseuon e-bost mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
4. **Cyfryngau Cymdeithasol –**cafwyd 31 o sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Economi	
Pennawd Thema/Cod	Nifer y Sylwadau
Canol y Dref	50
Busnesau	34
Ymwelwyr a/neu dwristiaeth	15
Swyddi a gwaith	12
Maes Parcio	14
Enw da a hunaniaeth Wrecsam	11
Digwyddiadau a marchnata	6
Llywodraethu	6
Hanes / Treftadaeth	6
Golwg y dref	4
Ymgynghoriad Beth sy'n Bwysig i Chi?	3
Ni ddylai hyn fod yn gyfrifoldeb CBSW	2
Tlodi	2
Mewnfudo	2
Arall	*18*

Mae themâu a safbwyntiau cyffredin wedi eu nodi o fewn y data. Mae manylion y rhain isod.

Pobl	
Pennawd Thema/Cod	Nifer y Sylwadau
Iechyd	24
Addysg	24
Yr Iaith Gymraeg	14
Hamdden	11
Plant a Phobl Ifanc	11
Trosedd	7
Pobl Hŷn	9
Gofal Cymdeithasol	8
Ni ddylai hyn fod yn gyfrifoldeb CBSW	6
Ymgynghoriad 'Beth Sy'n Bwysig i Chi?'	6
Cymunedau	5
Llywodraethu a rheoli'r Cyngor	5
Ymyrraeth fuan/ataliad	2
Tai a Chynllunio	2
Mewnfudo	3
Cludiant	2
Gwrando ar y cyhoedd	1
Tlodi	1

Arall	*17*

Lle	
Pennawd Thema/Cod	Nifer y Sylwadau
Cludiant	53
Tai	28
Priffyrdd	25
Pryderon amgylcheddol	17
Sbwriel ac Ailgylchu	12
Cynllunio	11
Digartrefedd	10
Cymunedau	6
Trosedd	5
Addysg	3
Tegwch a Chydraddoldeb	3
Ymgynghoriad ‘Beth Sy’n Bwysig i Chi?’	4
Mewnfudo	2
Gwrando ar y cyhoedd	3
Twristiaeth	3
Llywodraethu	1
Arall	*11*

Trefniadaeth	
Pennawd Thema/Cod	Nifer y Sylwadau
Cyfathrebu a gwasanaeth cwsmer	29
Gwrando ar y cyhoedd	19
Llywodraethu	13
Moral Staff	9
Beirniadu staff	7
Rheolaeth	6
Cymharu gydag awdurdodau lleol/ardaloedd eraill	5
Ymgynghoriad ‘Beth Sy’n Bwysig i Chi?’	4
Peidio trin y cyhoedd fel cwsmeriaid	2
Arall	*17*

Atodiad 3 – Rhaglen Digwyddiad Ymgynghori

Digwyddiad Ymgynghori - 24 Chwefror 2015

Rhaglen

6.00pm - Cyrraedd a chofrestru

6.15pm - Croeso a Chyflwyniadau

6.20pm - 'Penderfyniadau Anodd' Adborth Dywedoch chi, Gwnaethom ni

6.50pm - Cyflwyniad i 'Beth sy'n bwysig i chi?'

7.00pm - Sesiwn Ymgynghori 'Beth sy'n bwysig i chi?'

7.45pm - Adborth byr o'r sesiwn

8.00pm - Sylwadau i gloi

8.15pm - Diwedd y Digwyddiad